CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 17 MEDI 2007 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. D H Roberts (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Y Parch. H M Davies (Aelod)	Mr. D Carr
	Mr. J Ledsam

Croesawodd Aelodau'r Comisiwn Mr Ledsam, a oedd yn ddiweddar wedi'i benodi'n Gynorthwy-ydd Tîm i'r Ysgrifenyddiaeth ar sail secondiad o Dŷ'r Cwmnïau.

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 11 GORFFENNAF 2007

2.1 Cytunwyd â'r rhain ar yr amod y gwneid mân newidiadau.

3. MATERION YN CODI

Cyfarfod Agored Cyffredinol Blynyddol

3.1 Cyflwynodd yr Ysgrifennydd agenda drafft y Cyfarfod Agored Blynyddol. **Cytunwyd** y byddai'r agenda drafft yn cael ei fabwysiadu ar gyfer y Cyfarfod Agored Blynyddol.

4. Y COMISIWN ETHOLIADOL: PROSIECT GWERTHUSO AROLYGIADAU ETHOLIADOL CYFNODOL

4.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd, er y cyhoeddwyd canfyddiadau'r prosiect Gwerthuso Arolygiadau ym mis Gorffennaf 2007, bod y mater ar y gweill o hyd, a bod y Comisiwn Etholiadol wedi addo rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am unrhyw gynnydd.

4.2 Nododd yr aelodau fod adroddiad y canfyddiadau'n cynnwys rhai meini prawf i ddiffinio hunaniaeth gymunedol. Ystyriwyd y byddai hyn yn ddefnyddiol i'r Comisiwn, am y byddai'n cynorthwyo eraill i ddeall gwaith y Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai datganiad ynghylch diffiniad hunaniaeth gymunedol yn cael ei baratoi, a fyddai'n defnyddio unrhyw ddisgrifiadau blaenorol sydd i'w canfod yng nghofnodion y Comisiwn .

5. AMSERLEN AROLYGU

5.1 Adroddwyd bod problem ar hyn o bryd am fod rhai awdurdodau lleol yn gwneud cais am gynnwys arolygiad o'u trefniadau etholiadol cymunedol yn y cyfarwyddiadau a gyhoeddir i'r Comisiwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC), pan nad oedd y ddeddfwriaeth yn caniatáu i'r Comisiwn gynnal yr arolygiadau hyn. Roedd y Comisiwn o'r farn y dylid

esbonio i'r awdurdodau lleol a LlCC mai dim ond newidiadau ôl-ddilynol i'r trefniadau etholiadol cymunedol, o ganlyniad i newid ffiniau cymunedol, y gallai'r Comisiwn eu rhoi ar waith. Rhoddwyd gwybod am y sefyllfa i adran nawdd y Comisiwn, a nodwyd nad oedd ceisiadau fel hyn yn rhan o gwmpas y ddeddfwriaeth.

5.2 Nodwyd bod awdurdodau lleol wedi dyrannu llawer o'u hadnoddau i gynnal arolygiad diweddar o ddosbarthiadau pleidleisio ar gais y Comisiwn Etholiadol, gyda'r canlyniad mai yn ddiweddar yn unig yr ystyriwyd gofynion arolygu cymunedau gan rai awdurdodau. Mynegodd y Comisiwn bryder bod yr amser a gymerwyd gan awdurdodau lleol i wneud cais am arolygiadau cymunedol, ynghyd â'r amser a gymerwyd gan LlCC i ddrafftio a chyhoeddi'r cyfarwyddiadau, yn golygu na fydd modd i'r Comisiwn, o bosibl, gwblhau rhai arolygiadau cymunedol cyn i arolygiad etholiadol Cymru gyfan ddechrau. Nodwyd hefyd y byddai gan y Comisiwn, erbyn hyn, faich gwaith sylweddol yn ystod y misoedd nesaf, gydag adnoddau a chyllideb gyfyngedig.

5.3 **Cytunwyd** mai'r unig ddewis uniongyrchol i'r Comisiwn oedd cadw at yr amserlen a amcangyfrifwyd.

6. ADRODDIAD CYLLID – CHWARTER 1 2007-08

6.1 Adroddwyd y bu'r Comisiwn ymhell o fewn ei gyllideb ar ddiwedd chwarter cyntaf 2007-08. Fodd bynnag, cafwyd ychydig o wariant ychwanegol, a nodwyd yn ddiweddar, a fyddai'n arwain at leihau'r gwarged diwedd blwyddyn amcangyfrifedig a adroddwyd.

7. UNRHYW FATER ARALL

Trefniadau Arolygu

7.1 Ystyriwyd y byddai angen edrych ar broses arolygiad etholiadol Cymru gyfan yng nghyd-destun gwaith presennol a gwaith sydd ar fin cael ei wneud i arolygu cymunedau a ffiniau, a nodi unrhyw gamau y gellid eu cymryd i hwyluso'r gweithdrefnau arolygu hyn. **Cytunwyd** ystyried hyn fel rhan o agenda diweddarach.

Arolygiadau Cymunedol

7.2 Rhoddwyd gwybod i'r Comisiwn fod Cyngor Sir Ynys Môn wedi gofyn am estyniad i'r terfyn amser y gofynnwyd iddo gyflwyno unrhyw sylwadau am gynigion yr arolygiad o'i fewn. **Cytunwyd** y dylid rhoi gwybod i Ynys Môn y byddai'n rhaid i ni gael eu sylwadau cyn cyfarfod nesaf y Comisiwn ar 8 Hydref er mwyn iddynt gael eu hystyried.

8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

8.1 **Cytunwyd** y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar ôl y Cyfarfod Agored Blynyddol ar 8 Hydref 2007. Ystyriwyd y byddai'n well petai'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn yr un lleoliad â'r Cyfarfod Agored Blynyddol er mwyn arbed amser. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn gwirio argaeledd llety ar gyfer y cyfarfod yng Ngwesty'r Copthorne ar gyfer prynhawn 8 Hydref.

8.2 Trefnwyd darpar ddyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol ar gyfer:

Dydd Iau 15 Tachwedd 2007 am 10:30 – 10:45
Dydd Mawrth 18 Rhagfyr 2007 am 10:30